**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | M H Jones |
| W Evans | M B Lewis | R D Lewis |
| T M White | L J Tyler-Lloyd | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Alan Webster | Swyddog Coed |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Richards, P B Smith a/ac D W W Thomas

---

**7 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**8 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2020 fel cofnod cywir.

**9 Gorchymyn Cadw Coed Dros Dro - GCC 671 Tir gerllaw 42 Llwyn Close, Sgeti, Abertawe.**

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad a oedd yn gofyn am ystyriaeth i gadarnhau'r Gorchymyn Cadw Coed dros dro sef GCC 671, Tir gerllaw 42 Llwyn Close, Sgeti, Abertawe (2020) fel gorchymyn llawn.

Cafodd manylion cefndir a hanes y mater, ynghyd â rhoi'r gorchymyn dros dro yn y lle cyntaf ym mis Mawrth 2020, eu hamlinellu a'u manylu gan Swyddogion. Roedd y gorchymyn yn cwmpasu dwy goeden yn y lleoliad. Nodwyd bod teitl y gorchymyn cychwynnol ychydig yn anghywir gan mai enw'r ffordd yw 'Llwyn Mawr Close' ac nid 'Llwyn Close'.

Amlinellwyd y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd i'r gorchymyn dros dro yn yr adroddiad.

Yn dilyn y gohiriad yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr, roedd swyddogion wedi cyhoeddi gorchymyn dros dro pellach i warchod y coed.

Amlinellwyd bod peth mân waith wedi'i wneud ar un o'r coed gan weithwyr proffesiynol cymwysedig yn dilyn cytundeb gan swyddogion.

Rhoddodd David Stanton (gwrthwynebydd) anerchiad i'r Pwyllgor a siaradodd yn erbyn y cynigion i osod GCC ar y goeden. Dywedodd ei fod yn dymuno garchod y goeden a'i fod wedi gwneud rhywfaint o waith ar y goeden, a gymeradwywyd gan swyddogion, ar gost sylweddol iddo'i hun. Dywedodd ei fod yn dymuno gwarchod a gwella'r goeden a'r amgylchedd lleol.

**Penderfynwyd** cadarnhau'r Gorchymyn Cadw Coed ar y tir gerllaw 42 Llwyn Close, Sgeti, Abertawe (2020), gan addasu'r teitl i "Tir gerllaw: 42 Llwyn Mawr Close, Sgeti, Abertawe (2020)."

Daeth y cyfarfod I ben am 2.27 pm

**Cadeirydd**